

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 2 Ionawr 13, 2022 50c.

## NEGES FLWYDDYN NEWYDD DYFRIG

Wrth i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg baratoi i ddathlu ei ben-blwydd yn 150 oed eleni, y ddwy flynedd ddiwethaf fu'r rhai mwyaf heriol yn ei hanes, meddai'r Parchg Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb mewn neges Blwyddyn Newydd gafodd dipyn o sylw gan y wasg a'r cyfryngau.

'Mae'r argyfwng Covid wedi ysgwyd eglwysi allan o'u cyflwr cysurus, a thrwy ein gorfodi i gofleidio ffyrdd newydd o ymarfer ein ffydd, fe allai arbed llawer o achosion rhag dirywiad araf a therfynol,' meddai. "Am y tro cyntaf yn ein hanes, roedd capeli ar gau neu'n gweithredu mewn modd cyfyngedig am gyfnodau hir; y cysylltiad rhwng adeiladau a'u cynulleidfaoedd wedi'i dorri.

### Nid adeilad yw eglwys

'Ond mae'r ffordd y cododd nifer o weinidogion a chynulleidfaoedd i'r her, drwy ddefnyddio Zoom i gynnal gwasanaethau rhithiol a llwyfannau digidol i hybu'r Efengyl, wedi creu deinamig newydd ac wedi adfywio sawl eglwys. Cawsom ein hatgoffa mai cymuned o gredinwyr yw'r eglwys, nid adeilad.

'Yn lle cynulleidfa o rai dwsinau neu lai ar fore Sul, gall gwasanaeth Cymraeg a baratowyd gan eglwys unigol ddenu dros 500 o wylwyr ar YouTube. Roedd darpariaeth ysbrydol o'r fath yn hynod werthfawr yn ystod y cyfnodau clo, ond mae'n parhau i fod yn boblogaidd iawn ers i'r cyfyngiadau gael eu llacio a'r cyrddau arferol yn cael eu cynnal.



### Dyfeisio ffyrdd newydd

'Mae'r Undeb yn gwahodd y cannoedd o eglwysi sy'n perthyn iddo i wneud cais, drwy'r cynllun Arloesi a Buddsoddi, am grantiau sylweddol, i fuddsoddi mewn prosiectau arloesol a all gynnwys adeiladu presenoldeb cryfach ar y rhyngwyd, ochr yn ochr â phrosiectau sy'n galluogi cynulleidfaoedd i fynd ati o'r newydd i ddyfeisio ffyrdd o wneud

mwy o ddefnydd cymunedol o adeilad capel, tra'i fod yn parhau i fod yn addoldy.

'Does dim dwywaith y bydd 2022 yn flwyddyn dyngedfennol i'n heglwysi. I rai, efallai mai argyfwng y pandemig fydd yr hoelen olaf sy'n arwain at gau'r achos, ond i eraill bydd yn ddechrau cyfnod newydd lle maent yn cofleidio ffyrdd ffres a chyffrous o ymarfer y ffydd Gristnogol ymhlith y gynulleidfa ac yn y gymuned.

'Ym mlwyddyn ein pen-blwydd arbennig fel Undeb, ga' i ddymunio Blwyddyn Newydd Dda a Bendithiol i bawb.'

## Tabernacl Ffairfach yn talu teyrnged a diolch

Ionawr 2021 penderfynodd ein gweinidog Iwan V. Evans ein hysbysu ei fod yn bwriadu ymddeol yn ystod y flwyddyn. Roeddem fel aelodau yn drist i glywed hyn, a cheision ni anghofio'r syniad! Ond agosáu wnaeth diwedd y flwyddyn a rhaid oedd derbyn yr anochel; felly dydd Sul 5 Rhagfyr, bu cyfarfod er mwyn talu teyrnged iddo.



Roedd hi'n fore oer Nadoligaidd y tu allan, ond roedd y teimladau tu mewn i gapel y Tabernacl yn gynnes a gwerthfawrogol. Pawb yn cytuno i ni fod mor ffodus i gael gweinidogaeth Iwan a Barbara am gymaint o flynyddoedd.

Cyflwynwyd rhodd i Iwan gan Mr Ieuan Jones a diolchodd am y blynyddoedd hapus rydyn wedi'u mwynhau, a'r pregethau gwych a didwyll o Sul i Sul.



Cyflwynodd Mrs Anne Roberts gacen ac arno lun o'r Tabernacl i Iwan a Barbara. Diolch i Mrs Nest Rees am wneud y gacen ar ein rhan fel aelodau. Fyddwn yn sicr ddim yn ffarfwelio yn gyfan gwbl â chwmni Iwan, a byddwn yn edrych ymlaen at ei weld ambell Sul yn ystod y flwyddyn ac i'r dyfodol.

Ymddeoliad iach a hapus i chi'ch dau.

Anne Roberts



## CYFARCHION BLWYDDYN NEWYDD

Dyma ni 'to 'te, yn cyfarch Blwyddyn Newydd arall, ac yn dymuno un iach hefyd, o gofio bod yna firws arall yn ein



goddiweddyd ar hyn o bryd. Awn ni ddim ar ôl hwnnw nawr, buom yn sôn digon am Covid-19 gan ddysgu'r ffordd orau i edrych ar ôl ein hunain, a rhaid gwneud yr un beth y tro hwn hefyd.

Mae un o hen benillion Mam-gu yn dod i'r cof yn y fan hyn:

Diar my heart a chalon drom  
Beth sydd imi'r flwyddyn hon?  
Nid ar y flwyddyn fach mae'r bai  
Ond ar y bobol 'gylch y tai!

Ond, yn wahanol i'r pennill bach, rydym yn tueddu i feio'r flwyddyn hon neu'r llall! 'Wel dyna flwyddyn ofnadwy oedd ...' ac ati, p'un ai oherwydd sefyllfaoedd neu amgylchiadau llon neu leddf, ac o feddwl, arnom ni fel pobl mae'r bai am ledaenu'r gwahanol firysau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

## Traddodiadau

Rydym wedi cyffwrdd â rhai o'r hen draddodiadau ynglŷn â'r Calan, a hyd yn oed yr Hen Galan o'r blaen ac er bod rhai wedi mynd i ebargofiant, mae un wedi goroesi, sef y Plygain. I ddyfynnu'r Parchedig Ganon Ddr Patrick Thomas, 'Aeth pedair canrif heibio oddiar pan oedd Rhys Prichard yn cadw'r Plygain yn eglwysi Llanymddyfri a Llanfair-ar-y-

bryn, ac mae'n hyfryd meddwl nad yw'r mawl wedi darfod, a bod yr wyl yn parhau i gael ei chadw yng Nghaerfyrddin.'

## Yn fyf-eang

Dyna ni wedi sôn amdanom ni'r Cymry, ond beth am wledydd eraill a'u traddodiadau hwy? Darllenais mewn cylchgrawn Saesneg y dydd o'r blaen am rai traddodiadau rhyfedd iawn. Dyma i chi flas o rai ohonynt. Pobl Colombia, De America, yn cario bag dillad gwyliau gwag mewn gobaith am flwyddyn o anturiaethau. Yn Denmarc wedyn, maen nhw'n torri platiau a gwydrau'n deilchion ar stepen drws eucymdogion er mwyn gyrru ysbrydion drwg i ffwrdd. Yng ngwlad Groeg, hongian winwns (nionod) wrth ymyl y drws ffrynt fel arwydd o ailenedigaeth yw eu traddodiad hwy. Mae'r Sbaenwyr, mae'n debyg, yn bwyta dwsin o rawnwin fel mae'r cloc yn taro hanner nos, gan obeithio am lwc dda am bob mis o'r flwyddyn sydd i ddod. Ym Mrasil, bwyta eu hoff bryd o fwyd fydd trigolion y wlad, sef ffacys neu lentils.

I ddod yn nes adre, mae llawer o draddodiadau'n perthyn i'r Alban, ac mae un ohonynt wedi ei fabwysiadu



Oherwydd y mae mil o flynyddoedd yn dy olwg fel doe sydd wedi mynd heibio, ac fel gwylidwriaeth yn y nos. Yr wyt yn eu sgubo ymaith fel breuddwyd; y maent fel gwellt yn adfywio yn y bore — yn tyfu ac yn adfywio yn y bore, ond erbyn yr hwyr yn gwywo ac yn crino.  
(Salm 90:4-6)

erbyn hyn dros y byd, sef canu'r 'Auld Lang Syne'.

A beth am i ninnau hefyd y flwyddyn newydd hon, fel yn y gân, gofio am ein cydnabod, ac yn fwy nahynny, am bobl lai ffodus na ni ar hyd a lled y byd ar hyn o bryd?

Nansi Hayes

(allan o *Papur Priordy*, misolyn eglwys y Priordy, Caerfyrddin, rhifyn 351, Ionawr 2022)

## GOHEBIAETH

At y Golygydd,



Yn ddiweddar bues yn bwrw golwg yn ôl dros 2021 a llunio rhestr gyda'r teitl, 'Achlysuron Arbennig'. Ar ben fy rhestr mae gwasanaeth o ddiolchgarwch am fywyd a gwaith yr Athro Syr John Meurig Thomas. Cynhaliwyd y gwasanaeth ar 13 Tachwedd yng nghapel Bethesda, Llangennech, Llanelli. Cefais y cyfan yn brofiad gwefreiddiol, yn fraint ysbrydol ac ysbrydoledig ac yn achos balchder bod un mor nodedig o ddisglair yn ei arbenigedd wedi'i fagu yn ein plith yn Gymro a oedd yn falch o hynny.

Pam cynnal y gwasanaeth yn y Bethesda hwn? Am mai yno y bu ef a'i gariad, Margaret, a ddaeth yn wraig iddo, yn addoli yng nghyfnod gweinidogaeth oleuedig y Parchedig Maurice Loader.


Yn ei theyrned i'w thad rhannodd Lisa atgofion o sawl agwedd ar fywyd ei thad, yn eu plith ei hoffter o llythru gyda phobl ar bob math o faterion. Cyfeiriodd at ei gyfnod yn wrandawr astud ar bregethau ym Methesda a'i arfer o anfon llythyr at bregethwyr yn holi am gynnwys eu pregethau. Mae'n siŵr gennyf fod yr ohebiaeth rhwng John Meurig a Maurice yn fuddiol i'r ddau. Am esiampl ar gyfer 2022!

Oni fyddai'n llesol i ni eleni sefydlu arfer o drafod rywsut gyda phregethwyr, er lles pawb? A'r trafod yn fwy na'r cwrtais, 'Cawsom lawer i feddwl drosto.'

Weinidogion a phregethwyr, a ydych chi'n barod i gynnig a threfnu hyn? Wrandawyr, a ydych chi'n barod i ymateb? Neu, a ydym oll am anghofio un rhan o orchymyn Iesu, 'Câr yr Arglwydd dy Dduw ... a'th holl feddwl ...' (Marc 12, 30).

Yn gywir,

Neville Evans  
Bethel, Penarth



## Dyfodol Canolfannau E.B.C.



Mewn datganiad yn ddiweddar ar wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru, fe roddwyd canlyniad yr adolygiad ar ddyfodol dwy ganolfan breswyl yr enwad, sef Canolfan Hyfforddiant Lleyg a Chynadledda Coleg Trefeca a Chanolfan Ieuentid a Phlant Coleg y Bala. Bu'r enwad ynglŷn â'r adolygiad ers 2018 mewn ymateb i'r newid sydd wedi digwydd oddi mewn ac oddi allan i'r eglwys.

Yn y datganiad a wnaed cyn y Nadolig (sydd i'w gael ar wefan EBC, [Datganiad Coleg Trefeca a Coleg y Bala | Eglwys Bresbyteraidd Cymru \(ebcpcw.cymru\)](http://Datganiad_Coleg_Trefeca_a_Coleg_y_Bala_Eglwys_Bresbyteraidd_Cymru_(ebcpcw.cymru))), fe nodir gwerthfawrogiad o'r canolfannau a rôl allweddol y ddwy ganolfan yng ngweinidogaeth a chenhadaeth yr eglwys gyfan.

Dywedir yn gyntaf am Ganolfan Trefeca, 'Byddwn yn diogelu perchnogaeth safle Trefeca, safle sydd o arwyddocâd hanesyddol i'r Enwad fel ag i Gymru a thu hwnt. Byddwn yn gwneud hynny drwy adnabod grwpiau / partneriaid fydd yn gyfrifol am waith a gweinidogaeth o ddydd i ddydd y Ganolfan. Er y bydd lefel ein buddsoddiad ariannol fel Enwad yn dirwyn i ben dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweithio gydag eraill i ddiogelu fod y llecyn arbennig hwn o dir a'i dreftadaeth gyfoethog yn parhau i wasanaethu fel atgof byw o'n gorffennol, ac fel safle sy'n dod â bywyd, yn lle i orffwys, encilio, trafod a dysgu ar gyfer ein heddiw wrth inni edrych ymlaen at yfory.'

Dywedir wedyn am Ganolfan Coleg y Bala fod penderfyniad i barhau i gyllido gwaith y Ganolfan am y tair blynedd nesaf oherwydd natur y gwaith allweddol a wneir yno a'i rôl o fewn tîm ehangach Gwasanaeth Plant ac Ieuentid EBC.

Cawn gyfle isod i glywed ymateb rheolwyr presennol Canolfan Coleg y Bala a'r gwahoddiad i bartneru efo nhw i barhau i wasanaethu yn enw ein Harglwydd a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn clywed gan rai sydd ynglŷn a'r gwaith yn Nhrefeca yn ein rhifyn nesaf. Cafwyd eisoes ymateb i'r newyddion am y canolfannau hyn ar Radio Cymru - *Bwrw Golwg a Dros Frecwast*. Gwahoddwn chi fel darllenwyr *Cenn@d* i ymateb hefyd ac i rannu eich syniadau a'ch gwerthfawrogiad efo ni. (Gol. HP-D)



Gweithgaredd Nadolig ar y Cwrs Ieuentid diweddar yng Ngholeg y Bala



Disgo tawel yng nghapel y coleg



Owain Edwards yn siarad efo'r plant ar gwrs Hwyl yr Ŵyl cyn y Nadolig.

## Blwyddyn Newydd Fendithiol i bob un ohonoch!

Yr ydym ni yma yng Nghanolfan Coleg y Bala yn edrych ymlaen yn ddisgwylgar at 2022 er mwyn gweld beth sydd gan Dduw yn aros ar ein cyfer. Fel y gwyddoch, o bosibl, fe fu'r Ganolfan Ieuentid a Phlant a adnabyddwn fel Coleg y Bala o dan adolygiad yn ddiweddar, ac fe gyhoeddodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru y byddant yn parhau i ariannu'r ganolfan am y tair blynedd nesaf.

Fodd bynnag, ar ôl y cyfnod hwn, fe fydd angen i Ganolfan Coleg y Bala ganfod cefnogaeth a ffynonellau ariannu o lefydd eraill. Yr ydym ni wir yn ddiolchgar am y blynyddoedd maith o gymorth ffyddlon yn ariannol, mewn gweddi ac yn fugeiliol y mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi ei roi i ni ac eraill o'n blaenau yn y Coleg. Yr ydym yn ddiolchgar am yr eglwysi a'r Ysgolion Sul sydd wedi partneru efo ni yn yr Efyngyl a'r ffrwyth y mae hynny wedi ei ddwyn. Mae yna lawenydd mawr yn ein plith bob tro y byddwn yn derbyn ymatebion cadarnhaol wedi cynnal cyrsiau, pan welwn fywydau'n cael eu newid oherwydd yr Efyngyl a phobl ifanc yn rhannu Iesu efo eraill. Mae hyn oll wedi bod yn bosibl oherwydd partneriaeth haelionus EBC. Diolchwn i Dduw am ei ffyddlondeb.

Felly, beth am y dyfodol? Fe fu inni ailagor yn llawn ddiwedd Medi, ac mae'n dda iawn gennym ddweud inni, er gwaethaf Covid, allu gwahodd plant a phobl ifanc i ddod i aros yma. Bu i'r staff ymdafu'n llwyr i'r dasg o sicrhau mai'r rhain oedd y cyrsiau gorau eto! Bu'r ymateb yn gadarnhaol, ac mae hi mor dda gweld y Coleg yn cael ei ddefnyddio i'w potensial llawn. Yr ydym yn llawn cyffro i weld y Coleg yn cyflwyno rhai cyrsiau newydd a hefyd yn dod â llawer o'r cyrsiau mwyaf poblogaidd yn eu holau. Mae yna waith eto i'w wneud ymhlith ein plant a'n pobl ifanc.

Wrth inni weddio a chynllunio ar gyfer y dyfodol, gawn ni ofyn i chithau hefyd ymuno â ni yn hynny. A hoffech chi bartneru efo ni yn y gwaith? Allech chi roi amser i weddio, i roi yn ariannol neu i'n cyfeirio at sefydliadau eraill a fyddai'n hoffi partneru gyda ni. Yr ydym yn gwybod ac yn credu mai gwaith yr Arglwydd yw hwn ac yr ydym yn ymddiried y gwaith iddo ef. Ef sy'n dweud yn ei Air,

"Gadewch i'r plant ddod ataf fi; peidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn" (Marc 10:14). Y fath fraint yw cael bod yn rhan o rannu ei Deyrnas gyda'n plant a'n pobl ifanc.

*Owain a Siân Edwards*

## Cymorth Cristnogol yn ffarwelio ag Amanda Mukwashi

Dymunwn yn dda i Amanda Khozi Mukwashi wrth iddi adael ei swydd fel Prif Weithredwr Cymorth Cristnogol ddechrau'r mis hwn.

Fe ymunodd Amanda Mukwashi â Chymorth Cristnogol yn 2018 fel ei Brif Weithredwr cyntaf o dras Affricanaidd ac mae hi wedi arwain y mudiad drwy amserau heriol sy'n cynnwys cyfnod pandemig Covid-19. Bydd Amanda yn gadael er mwyn arwain gwaith y Cenhedloedd Unedig yn Lesotho.

Yn ystod ei chyfnod gyda Chymorth Cristnogol fe arweiniodd ailstrwythuro mewnol sylweddol, yn ogystal â llunio strategaeth newydd ar gyfer y blynyddoedd i ddod – Sefyll Ynghyd, gyda ffocws integredig ar tlodi, grym a'r llais proffwydol. Hi fu'n gyfrifol am ddatblygu cynllun gweithredu tair blynedd ar hil ac amrywiaeth ar gyfer y mudiad.

Cydnabuwyd gwaith arweiniol Amanda ym mis Medi 2021 pan enillodd wobwr Prif Swyddog Gweithredol Elusennol y flwyddyn yng Ngwobrau'r Trydydd Sector.

Wrth baratoi i adael y gwaith, dywedodd Amanda: 'Rwy'n drist iawn fy mod yn gadael Cymorth Cristnogol – mudiad rydw i'n ei garu. Un o freintiau mawr fy mywyd oedd cael arwain y sefydliad nodedig yma am dair blynedd a hanner o'i 76 blynedd a chael gwneud fy rhan – ochr yn ochr â rhai o'r bobl mwyaf angerddol ac ymroddedig rydw i erioed wedi eu cyfarfod – yn sefyll dros urddas, cydraddoldeb a chyfiawnder i bawb.

'Er na fyddaf yn arwain Cymorth Cristnogol, rydw i'n hyderus fy mod yn gadael sefydliad cryf sydd wedi ei osod mewn lle da i fynd i'r afael â'r tlodi a'r anghyfiawnder sy'n mynnu ei barhad. Mae gennym ni ddim sydd eto mewn lle da i wneud gwahaniaeth go iawn ar faterion newid hinsawdd, dyled, ac anghyfarfaled economaidd, hiliol a rhywedd. Byddaf yn dal ati i gefnogi ac annog Cymorth Cristnogol o ochr y cae.'

Dywedodd y Dr Rowan Williams, cadeirydd Cymorth Cristnogol hyd ddiwedd 2021: 'Er ein bod ni i gyd yn drist o weld Amanda yn gadael Cymorth Cristnogol, rydym yn ddyledus dros ben iddi am ei harweiniad i'r mudiad ardderchog hwn. Mae hi wedi cael argraff drawsnewidiol ar y mudiad a'r sector ehangach i gyd drwy fod yn lladmerydd brwd, hyglyw ac effeithiol i'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.



Llun: Cymorth Cristnogol

'Mae Amanda wedi bod yn brif weithredwr anhygoel, yn arweinydd anhygoel ym mhob ffordd, yn ysbrydoli symudiad cydweithredol dros newid yn ei phenderfyniad i ddileu sgandal ac anghyfiawnder tlodi. Bydd yn cael ei cholli yn arw, ond gweddiwn y bydd y cam nesaf hwn yn parhau i weld ei harweiniad yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.'

Mewn derbynnydd iddi yn Llundain ym mis Rhagfyr fe gyflwynodd y Parch. Nan Powell-Davies, Cadeirydd y mudiad yng Nghymru, anrheg o lwy garu iddi ar ran eglwysi a gweithwyr Cymorth Cristnogol yng Nghymru gan ddymuno bendith ar ei gwaith yn y 'Deyrnas yn yr Awyr' a'r fendith a arferir yno yn Lesotho: 'Khotso, Pula, Nala' (Heddwch, glaw a ffyniant).

### Dechrau Canu, Dechrau Canmol Cystadleuaeth Llundain Emyn

Dyddiad Cau: 14 Ionawr

Cofiwch am ein cystadleuaeth i ysgrifennu emyn newydd ar gyfer nodi pen-blwydd *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* yn 60 oed. Gofynnir i'r emyn fod yn gynnig Cymraeg gwreiddiol, a chofiwch ystyried beth fyddai hyd addas i'w ganu mewn capel neu eglwys. Rhoddir gwobr o £200 i'r emyn buddugol. Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw 14 Ionawr 2022. Anfonwch eich ceisiadau at: [emynigymru@rondomedia.co.uk](mailto:emynigymru@rondomedia.co.uk). Bydd cystadleuaeth newydd yn y gwanwyn i gyfansoddi emyn-dôn i'r geiriau buddugol.

### Gwahoddiad i ymuno mewn dosbarth pregethu ar Zoom

Bydd Dosbarth Pregethu yn dechrau o'r newydd ar 18 Ionawr am 7.30 o'r gloch, dan arweiniad W. Bryn Williams, Pwllheli.

Croeso i bregethwyr presennol a darpar bregethwyr neu unigolion sy'n awyddus i ddechrau arwain oedfaon.

Cysylltwch â Delyth Oswy-Shaw ([Delyth.Oswy@ebcpcw.cymru](mailto:Delyth.Oswy@ebcpcw.cymru))

neu W. Bryn Williams ([bryn.williams@ebcpcw.cymru](mailto:bryn.williams@ebcpcw.cymru))

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 16 Ionawr, am 7:30yh (aillardarledir y Sul canlynol am 11:30yb)

Bydd Nia yn cwrrd â'r Parchedig John Gillibrand, un sy'n benderfynol o redeg ras gorfforol ac ysbrydol. Bydd hi hefyd yn treulio amser gyda chriw sy'n mentro i oerfel y tonnau er mwyn eu lles eu hunain ac i fod yn gefn i'w gilydd. Cawn fwynhau perfformiad hyfryd o'r emyn-dôn 'Dim Ond Iesu' gan Eirlys Myfanwy.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 16 Ionawr, 7:30yb a 4:30yp

Euros Rhys Evans sy'n cyflwyno cyfres am berthnasau sydd wedi cyfannu tuag at ein hemynyddiaeth. Tair cenhedlaeth o'r un teulu sydd dan sylw heddiw, sef: J. T. Job, Dafydd Job a Heledd Job.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 16 Ionawr, 12:00yp

Gwasanaeth yng ngofal Ann Griffiths, Washington.

## Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Fel deunydd ar gyfer myfyrdod personol ac astudiaeth grŵp, byddwn yn parhau hyd y Grawys â'r myfyrdodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

### 10 Rhoi theori ar waith

#### Heddwch a disgyblaeth bersonol

Darllen: Galatiaid 5:16-26

Ond ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth. (adn. 22)

Mewn oes o sbin, mae'r cyhoedd yn cael eu dadrithio gan bobl sy'n dweud un peth ond yn byw mewn ffordd wahanol. Does dim diben bod yn angel pen ffordd, yn sglein i gyd gerbron y byd, os wyt ti'n ddiawl pen pentan, yn dreisiol yn dy fywyd preifat. Paid ag ystumio delweddau o bobl amherffaith er mwyn iddyn nhw ymddangos yn berffaith, gan osod safonau i bobl ifanc fregus sy'n amhosibl eu cyrraedd. Paid â honni bod allyriadau dy geir cyn wnydd â'r lili os ydyn nhw mewn gwirionedd yn chwydu amhureddau budron allan ar bob taith. Mae'r cyfan ynglŷn â bod yn real, yr hyn ydych chi mewn gwirionedd, neu'n syml iawn, yn wir. Nid bod dim o hyn yn newydd – doedd Iesu byth yn araf i lambastio'r rhai a wyddai oedd yn ragrithwyr.

Os ydym ni'n awyddus i ddweud bod gwneud heddwch yn rhan o bwy ydym ni fel disgyblion i Grist, yna mae'n rhaid i'n bywydau ni dystio i hynny. Rhaid inni weithredu'r hyn a bregethwn, nid yn unig ar gyfer ein lles meddyliol ein hunain neu i osgoi cael ein cyhuddo o ragrith, ond fel y byddo ein tystiolaeth i Iesu, Tywysog Tangnefedd, yn ddigon gwir a chywir i gael ei chredu. Cyn y gallwn ni fod yn dangnefeddwyr i eraill gydag unrhyw gredinedd, mae angen inni edrych i mewn i'n bywydau ein hunain a gweld a oes yna lefydd lle nad oes heddwch, archwilio achos hynny ac yna weithredu er mwyn ateb y diffyg. Gadewch imi awgrymu rhai manau sy'n ychwanegu at bresenoldeb heddwch yn ein bywydau, neu'n tynnu oddi wrtho.


Yn gyntaf, fe geir ein perthynas â Duw. Mae'n rhaid bod gennym heddwch gyda Duw os ydym ni am fyw bywyd o heddwch mewn gwirionedd. Wrth gwrs, gall y rheiny sy'n cau Duw allan o'u bywydau, neu hyd yn oed yn gwadu ei fodolaeth, ddal i brofi mesur o heddwch, yn enwedig os yw bywyd yn mynd yn dda iddyn nhw. Yn wir, efallai eu bod yn gallu dweud bod eu bywydau'n berffaith! Ddylem ni ddim fod yn ceisio tynnu oddi ar

hynny o angenrheidrwydd, ond ychwanegu ato yn hytrach, oherwydd mae *teimlo* bod gennych heddwch a *bod* yn wir mewn heddwch yn bethau gwahanol. Waeth pa mor dda bynnag ydy bywyd, mae'n well pan fydd Duw yn cael ei adnabod a'i addoli. Rwy'n gobeithio y bydd llawer o'r rheiny sydd heb fod yn adnabod Duw yn dod o hyd i gariad cynhesol yn ei freichiau, fel y bu i'r mab afradlon ei wneud ym mreichiau ei dad (Luc 15:11-32), a'r adeg honno rwy'n gobeithio na fydd fy ymateb i'n debyg o gwbl i un y brawd hynaf.

Fodd bynnag, y Beibl sy'n ein harwain yn ein hymwneud, ac mae'r Rhufeiniaid 5:1 yn uniongyrchol iawn wrth gysylltu ein perthynas efo Duw â realiti heddwch yn ein bywydau: 'Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist.' Yn wrthrychol, daw heddwch gyda Duw trwy ffydd yn Iesu Grist. Byddwn yn gweld yn fuan sut y gall ein hawydd i fod yn dangnefeddwyr fynd â ni i mewn i'r amrywiol feysydd dilys o ofal am ein byd – o wleidyddiaeth i gyfrifoldeb amgylcheddol – ond ddylen ni ddim cilio'n ôl oddi wrth neges yr efengyl fod Iesu yn Arglwydd a Gwarddwr, a gwahodd pobl i gydnabod yr hawl sydd ganddo ar eu bywydau. Os yw ein ffydd yng Nghrist yn rhoi unrhyw fesur o heddwch inni, yna sut y gallwn ni gadw hynny rhag eraill?

Yn ail, hyd yn oed i'r rheiny ohonom sydd wedi gwneud penderfyniad i ddilyn Crist yn y gorffennol, mae yna waith ffurfio cymeriad sy'n parhau ynom er mwyn i'n bywydau wirioneddol adlewyrchu'r Arglwydd a wasanaethwn. Mae'r nodweddion y down ni ar eu traws yn Galatiaid 5:19-21 yn rhai i'w hosgoi, a dyna restr ddiflas ydy honno! Ond, canolbwyntiwch ar y cadarnhaol a'r naw nodwedd a restrir yn yr adnodau sy'n dilyn, Galatiaid 5:22-3.

Cariad sydd ar frig y rhestr, y rhodd fwyaf yn ôl yr apostol Paul yn 1 Corinthiaid 13:13, ac mae sôn am heddwch fel un o'r naw, ond byddai'n gamgymeriad i geisio gwahanu'r nodweddion hyn. Ceisia rhai esbonwyr eu casglu yn drioedd, ond, a bod yn onest, dydy'r strwythur hwnnw ddim yn gweithio. Mae'n well gen i weld y rhain fel ymddygiad neu agweddau sy'n sefyll neu'n disgyn gyda'i gilydd fel uned. Bydd cymeriad sy'n cael ei



fowldio i fod yn debyg i un Crist, er byth yn berffaith, yn datguddio, gobeithio, pob un o'r nodweddion hyn mewn mesur helaeth. Os na fyddai, yna byddai yna waith i'w wneud. Felly, heb rygnu ymlaen ymhellach, bydd presenoldeb cariad yn ein calonnau yn cael ei amlygu gan synnwyr o lawenydd, awyrgylch o heddwch, addfwynder gydag eraill ac felly ymlaen. Yn yr un modd, fe fydd heddwch yn amlwg am ein bod yn edrych ar eraill gyda chariad; am ein bod yn gwrthod gadael i'n hamgylchiadau presennol ddwyn ein llawenydd oddi arnom; am ein bod yn amyneddgar gyda phobl, yn garedig, yn hael, yn addfwyn ac yn dangos hunanreolaeth. O droi hyn ar ei ben, os nad oes gennym hunanreolaeth neu fod ein cariad at bobl yn brin, yna fyddwn ni ddim mewn heddwch, ac felly ymlaen.

Yn aml, fe fyddwn yn edrych y tu allan i ni ein hunain am resymau i esbonio ein diffyg heddwch. Mae dylanwadau allanol yn effeithio'n fawr ar hyn – a dyna pam y byddwn yn mynd i'r afael â rhai o'r rhain yn y penodau nesaf – ond mae'n rhaid inni edrych yn gyntaf ar ein bywydau, ein calonnau a'n meddyliu ein hunain. Dyna lle mae gwreiddyn ein hunaniaeth, lle rydym yn coleddu popeth sy'n dda ac unrhyw beth sydd heb fod felly. Yn ein calonnau a'n meddyliu mae angen i Grist lywodraethu, gydag Ysbryd Duw yn llywio'r ffordd y byddwn yn meddwl ac yn llefaru a sut y byddwn yn ymateb ac yn adweithio.


Dyma pam mae Paul yn dweud, 'A bydd tangnefedd Duw, sydd goruwch pob deall, yn gwarchod dros eich calonnau a'ch meddyliu yng Nghrist Iesu' (Philipiad 4:7).

I weld y cyhoeddiad digidol [Cenn@d](mailto:Cenn@d) yn llawn, dilynwch y ddolen hon: [www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)

(Cyhoeddir [Cenn@d](mailto:Cenn@d) ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

## Allweddeiriau 1 Gras

Yn ddi-os, 'gras' yw un o'r geiriau pwysicaf yng ngeirfa'r Cristion. Ond, er bod hyn yn wir, mae yna gryn ddryswch heddiw ynglŷn â beth yw ystyr y gair allweddol hwn. Mae rhai'n meddwl mai gweddi i'w hadrodd cyn bwyta ein cinio yw 'gras'. Dyma, wrth gwrs, lle'r ydym yn cael yr ymadrodd 'gras bwyd'. Mae eraill yn tybio mai gair arall am 'amynedd' yw gras. Yn wir, rydym weithiau yn dweud 'mae eisiau gras' pan rydym ar fin colli ein hamynedd gyda rhywun. Mae'n debyg mai dyma'r ddwy ffordd mae'r rhan fwyaf o Gymry bellach yn diffinio'r gair 'gras'.



Ond, er gwaetha hynny, nid dyma'r ffordd mae'r Testament Newydd yn defnyddio nac yn diffinio'r gair 'gras' (Groeg: *charis*). Nid gweddi nac amynedd y mae 'gras' yn ei olygu yn y Beibl. Yn wir, ystyr gwreiddiol ac ysgrythurol y gair 'gras' yw 'haelioni anhaeddiannol Duw.' Yn ei *Eiriadur Ysgrythurol*, diffinia Thomas Charles y gair 'gras' fel: 'Daioni, cariad, caredigrwydd, cymwynasgarwch Duw tuag at bobl ... a hynny yn holl rad, wirfoddol, ac anhaeddiannol.'

Ystyr 'gras' ydy fod Duw yn llawn daioni a chariad tuag atom er nad ydym yn haeddu hynny o gwbl. Yn wir, er nad ydym yn haeddu ei ddaioni fel pechaduriaid, mae Duw wedi dangos ei ras rhyfeddol tuag atom yn Iesu. Trwy gredu yn Iesu, mae Duw yn arllwys ei ddaioni, ei gariad, ei drugaredd, a'i garedigrwydd arnom – a hynny'n gwbl anhaeddiannol! Mae hyn yn rhodd gan nad ydym wedi gwneud dim i'w haeddu. Dyma'r ffordd mae'r Apostol Paul yn diffinio'r gair 'gras' yn ei lythyr at yr Effesiaid:

*Ond gan mor gyfoethog yw Duw yn ei drugaredd, a chan fod ei gariad tuag atom mor fawr, fe'n gwnaeth ni, ni*

*oedd yn feirw yn ein camweddau, yn fyw gyda Christ; trwy ras yr ydych wedi eich achub.*

(Effesiaid 2:4-5)

**Gwilym Tudur**

## Y Tyst

Hoffem eich annog fel unigolion ac eglwysi i anfon deunydd i mewn i'r *Tyst*. Eich papur chi yw hwn ac yr ydym yn awyddus iddo adlewyrchu ein bywyd fel Annibynwyr yn ei holl amrywiaeth. Hefyd yn y dyddiau anodd hyn y mae'n gyfrwng i annog ac ysbrydoli ein gilydd yn ei ffydd ac yn ein gwaith dros yr Arglwydd Iesu a'i deyrnas.

Peidiwch â phetruso anfon deunydd atom un ai trwy e-bost, trwy'r post ar bapur neu hyd yn oed dros neges destun. Os nad ydych yn hyderus wrth ysgrifennu, na phoener, cysylltwch tros y ffôn i adrodd eich hanes. Gwyddom fod yna lawer o straeon, sylwadau, digwyddiadau, emynau, barddoniaeth, myfyrdodau a phregethau yn cael eu cyfansoddi yn wythnosol. Mor braf fyddai cael eu cynnwys yn *Y Tyst*.

Ydych chi yn teimlo nad yw eich ardal/eglwys chi yn cael ei chynrychioli'n ddigonol, os o gwbl, yn *Y Tyst*? Wel, beth am unioni'r cam trwy ysgrifennu pwt neu lith a'i anfon atom. Neu, a oes pethau ar eich meddwl yr hoffech rannu gydag eraill, pethau yr ydych yn teimlo yn gryf amdanynt nad ydynt yn cael sylw? Anfonwch lythyr yn ddiymdroi at y golygydd i rannu eich safbwynt a'ch meddyliau er mwyn eu gwynnyllu.

Os oes gennych gylchgrawn neu gylchlythyr fel eglwys, beth am eu hanfon yn gyson at y golygydd, er mwyn i ni loffa ohonynt?

Ydych chi wedi tynnu lluniau o ddigwyddiadau? Anfonwch lun atom gyda phennawd a byddwn yn gallu eu cynnwys.

Ysbrydolwch eich cyd Gristnogion yng Nghymru trwy ddefnyddio'r *Tyst* fel llwyfan.

Mae manylion cyswllt ar gefn pob rhifyn o'r *Tyst*.

**Alun Tudur,  
Golygydd**

## YMDDIRIEDOLWYR EIN CAPELI – 100 mewn cyfarfod Zoom i ddyysgu a holi

Fe drefnodd Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin gyfarfod Zoom i drafod pwysigrwydd penodi digon o Ymddiriedolwyr ym mhob capel, ac i glywed beth yw eu cyfrifoldebau yn fras. Fe wnaeth tua 100 o bobl droi mewn i'r rhith-gyfarfod!

Anerchwyd gan y Parchg Tom Defis, Cadeirydd Pwyllgor Bugeiliol y Cyfundeb, a gan y Parchg Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr.

Pwysleisiodd Tom bwysigrwydd Pwyllgor Bugeiliol y Cyfundeb, gan atgoffa'r cyfarfod am y cymorth sydd ar gael ganddo i'r eglwysi a'u gweinidogion mewn ystod eang o feysydd – popeth o faterion ariannol i helpu gyda'r broses o benodi Ymddiriedolwyr. Yna, fe gafwyd anerchiad gan Dyfrig am bwysigrwydd cyfreithiol sicrhau digon o Ymddiriedolwyr mewn pob capel.

Bwriedir trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb maes o law, ar gyfer y rhai sydd heb adnoddau technegol i ymuno mewn cyfarfodydd Zoom. Yn y cyfamser, Mae modd gweld fideo o'r cyfarfod, y siaradwyr a'r cwestiynau a holwyd, ar wefan cyfundeb.com



## Barn Annibynnol

### Blwyddyn Newydd Dda?

Ydyn ni wir wedi cyrraedd blwyddyn arall yn barod?

Na, peidiwch â phoeni, ni fyddaf yn mynd i sôn am addunedau newydd sydd braidd yn cyrraedd diwedd wythnos gyntaf y flwyddyn, nac ychwaith yn sôn am ddechrau deiet



newydd neu gynllun ymarfer corff sydd yn mynd i wneud i'r pwysau ychwanegol ddiplannu erbyn 1 Chwefror – er, os oes y fath beth yn bodoli yna, cysylltwch, wrth gwrs.

#### Taro deuddeg

Wrth i'r cloc daro hanner nos ac wrth i'r dymuniadau da gyrraedd dan ganu'n glychau electronig ar y ffôn, roedd y cyfarchion yn debyg – Blwyddyn newydd dda! Dwi'n mynd yn eithaf hiraethus ar ddiwrnod olaf bob blwyddyn. Dwi'n gwybod, ar fore dydd nos calan bod yr hiraeth wedi cyrraedd pan fydd y meddyliau a'r synfyfrio'n cychwyn wrth glywed yr adolygiadau am ddiwyddiadau'r flwyddyn ar fletin radio neu erthygl bapur newydd. Mae'n gallu bod yn daith emosïynol wrth ail-fyw digwyddiadau mawr y byd – rhai'n

deilwng o gael eu nodi a nifer ddim. Y peth sydd yn codi'r hiraeth fwyaf yw clywed a siarad am y rhai sydd wedi ein gadael yn ystod y flwyddyn.

Teulu, ffrindiau, cydweithwyr ac eleni i mi, arwr yn yr Archesgob Tutu. Weithiau mae'r llinell 'Mae'r hen flwyddyn wedi mynd, ni ddaw hi fyth yn ôl,' yn anodd ei chlywed.



#### Blwyddyn wahanol

Un peth sy'n bendant, mi fydd yn flwyddyn newydd wahanol – fel pob un arall. Ac felly mae cyfnod yr Ystwyll yn gyfnod newydd o obaith i mi. Mae'n iawn i gael y cyfnod hiraethus ac ydy, mae'n weithiau'n teimlo'n anoddach wynebu'r blynyddoedd newydd gyda'r un afiaith a'r un egni wrth i ni gasglu profiadau bywyd, ond mae hefyd yn hanfodol i ni edrych ymlaen!

Mae Paul yn dweud wrth y Philipiaid:

Dw i ddim yn honni fy mod i eisoes wedi cyrraedd, nac yn honni bod yn berffaith! Ond dw i'n dal ati er mwyn ennill y cwbl mae'r Meseia Iesu wedi'i fwriadu ar fy nghyfer i pan alwodd fi i'w ddilyn. Frodyr a chwirydd annwyl, dw i ddim am eiliad yn meddwl mod i eisoes wedi cyrraedd! Y cwbl dw i'n ei ddweud ydy hyn: Dw i'n anghofio beth

sydd tu cefn i mi ac yn canolbwyntio fy holl egni ar beth sydd o mlaen i. Fel taswn i mewn ras, dw i'n rhedeg at y llinell derfyn gyda'r bwriad o ennill! Dw i am ennill y wobr sydd gan Dduw ar ein cyfer ni. Ei alwad i'r nefoedd o achos beth wnaeth y Meseia Iesu.

Tra bod yr hyn sydd wedi digwydd yn fy mywyd wedi cael dylanwad arnaf ac wedi fy siapio i fod yr hyn wyf fi heddiw, dwi ddim yn edifar o'r gorffennol nac ychwaith am anghofio atgofion y blynyddoedd a fu. Dwi'n ddiolchgar am y gwersi dwi wedi eu dysgu o'r blynyddoedd hyn ond yn barod i her y blynyddoedd sydd i ddod.

#### Datguddiad

Ystyr y gair *Epiphany* yw 'amlygiad' neu 'ddatguddiad'. Pan fyddwn fel Cristnogion yn siarad am yr Ystwyll, rydyn ni'n cyfeirio at y tri dyn doeth neu ddatguddiad y Doethion mai Iesu oedd y Crist, y Meseia yr oedd Israel wedi bod yn aros amdano (Mathew 2: 1-12). Dyma'r cyfnod lle ddechreuodd gwaith Duw ymysg dyn drwy Iesu Grist. Cyfnod o lawenydd dylai hwn fod, cyfnod o obaith a chyffwrdd am yr hyn a ddaw eleni!

Mae'r gân, 'Rhwyng Bethlehem a'r Groes' gan y band Celt yn gofyn cwestiwn perthnasol i ni ar gyfer 2022: 'Ti'n gêm i fyw dy oes, rhwyng Bethlehem a'r Groes.'

Wyt ti? Blwyddyn newydd dda!


**Elin Maher**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)

## Dilyn Llinyn Mynwent Abney Park

Sylwais wrth ddarlenn *Y Tyst* –

ffynhonnell pob math o wybodaeth fuddiol – fod yr Apostol Heddwch, Henry Richards wedi marw ar 20 Awst 1888 yng nghartref ei ferch yn Nhreforth, ger Bangor, a bod ei weddillion wedi eu claddu ym mynwent Abney Park,



Llundain. Fel un a aned ym Mangor yr oeddwn yn gyfarwydd iawn â phlasty Treborth, sydd rhwyng y ddwy bont ar ochr Bangor, ond ni wyddwn ddim am Abney Park. Trwy gyd-ddigwyddiad roeddem wedi trefnu treulio deuddydd yn ninas ddiffr Llundain felly

penderfynais y byddai ymweliad â mynwent Abney Park yn cael ei osod ar yr amserlen. Y Magnificent Seven yw'r enw a roddir ar saith o hen fynwentydd Llundain ac os oes gennych ddi-ddordeb mewn hanes y mae'n werth ymweld â hwy oherwydd y mae llawer o enwogion wedi eu claddu ynddynt a nifer o Gymry yn eu plith. Gellir cael llawer o fanylion amdanynt a phwy sydd wedi eu claddu ynddynt trwy fynd ar wefan [britainsbestguides.org](http://britainsbestguides.org).

#### Cofeb urddasol

Gan ein bod yn aros yn ardal Earls Court roedd rhaid dal y District Line, newid yng ngorsaf Victoria a dal y Victoria Line i Seven Sisters ac oddi yno ar y London Overground i Stoke Newington. Nid nepell o'r orsaf i lawr stryd fawr Stoke Newington yr oedd y mynwent ar y dde. Ar wahân i'r llwybrau ac ambell i fedd enwogyn o fri y mae cyfeillion y mynwent wedi gadael iddi dyfu yn wyllt gan orchuddio'r mwyafrif o'r beddau gyda drain a mieri. Gofynnais o flaen

llaw i Huw Edwards, un sy'n llawn gwybodaeth am hanes Cymry Llundain, ble yn union yr oedd bedd H. Richards. Oherwydd hynny canfyddais ef heb fawr o drafferth. I ddweud y gwir roedd y gofeb iddo mor fawr fel y byddai wedi bod yn anodd iawn i'w methu. Adeiladwyd y gofeb trwy danysgrifiadau cyfeillion a chydabod H. Richards yng Nghymru a thu hwnt. Ond pam fod cofeb mor eithriadol i'r gŵr hwn ym mherfeddion Llundain?

#### Hanes Henry Richard

Dyma beth o'i hanes. Ganwyd Henry Richard ar 3 Ebrill 1812 yn Prospect House, Tregaron, yn ail blentyn a mab hynaf Ebenezer Richard a Mary. Roedd ei dad yn ŵr diwylliedig ac yn fab i athro cylchynol yn ysgolion Gruffudd Jones. Bu'n athro ac yn diwtor preifat i deulu Bowen, Llwynygwair, ac yr oedd ymhlith gweinidogion cyntaf y Methodistiaid Calfaidd a ordeiniwyd ym 1811. Etifeddodd ei fam ystâd ei

*parhad ar y dudalen gefn*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*  
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
 Caerdydd, CF23 9BS  
 Ffôn: 02920 490582  
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*  
**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**  
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
 LL49 9UE  
 Ffôn: 01766 513138  
 E-bost: IwanLlew@aol.com

**Alun Lenny**  
 Porth Angel, 26 Teras Picton  
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
 Ffôn: 01267 232577 /  
 0781 751 9039  
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*  
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**  
**Busnes Glanrafon, Bro Abertawe**  
**ABERTAWA SA7 0AJ**  
**Ffôn: 01792 795888**  
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

### Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

## Dilyn Llinyn – parhad

brawd, a hyn a'i galluogodd i roi addysg dda i'w phlant. Cafodd Henry Richard yr addysg orau a gaed yng Ngheredigion ar y pryd, yn ysgol ramadeg Llangeitho ac yna yn ysgol mathemateg a masnach John Evans yn Aberystwyth. Wedi gorffen yn yr ysgol bwriodd ei brentisiaeth fel dilledydd yng Nghaerfyrddin gan dreulio cyfnod yn gweithio yn Aberystwyth yn siop John Mathews y draper. Yna rhoddodd ei fryd ar y weinidogaeth ac aeth i Goleg Annibynnol Highbury yn Llundain. Yno cafodd addysg yn y clasuron, athroniaeth, diwinyddiaeth ac ieithoedd modern, ac yn y cyfnod hwn yr heuwyd hadau ei ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth. Ym 1835 ordeiniwyd ef yn weinidog ar eglwys yr Annibynwyr Saesneg, Marlborough Street ar yr Old Kent Road, Llundain, a bu yno hyd ei ymdeoliad ym 1850. Ym 1847 cyhoeddwyd yr Adroddiadau ar Gyflwr Addysg yng Nghymru (Brad y Llyfrau Gleision) ac ymatebodd Henry Richard yn egniol iddynt trwy amddiffyn y Cymry a'u hiaith yn erbyn ymosodiadau enllibus yr adroddiadau.

### Heddychwr

Penodwyd ef ym 1848 yn ysgrifennydd y Gymdeithas Heddwch ac fe ysgrifennodd, 'Y mae'r Gymdeithas Heddwch yn croesawu unrhyw un sy'n

caru Heddwch i ymaelodi, p'un ai ydynt yn derbyn y gred haniaethol ynglŷn â dyletswydd Gristnogol ar y pwnc ai peidio. Crëwyd y Gymdeithas i ysgogi barn gyhoeddus yn erbyn y Gyfundrefn Ryfel ac i annog mabwysiadu dulliau Cristnogol a theg i ddatrys anghytundebau rhyngwladol.' Roedd ef hefyd yn gyfrifol am barhad a datblygiad cyfres o gymanfaoedd heddwch pwysig a gynhaliwyd ym Mrwsel (1848), Paris (1849), Frankfurt (1850) a Llundain adeg yr Arddangosfa Fawr ym 1851. Bu hefyd yn gofalu am rai o gyhoeddiadau'r Gymdeithas. Ym 1866 cyhoeddodd y gyfrol *Letters a Essays on Wales*, a oedd, yn ôl Ieuan Gwynedd Jones, yn un o'r llyfrau pwysicaf am Gymru a gyhoeddwyd yn y 19eg ganrif. Ei friad oedd goleuo'r Saeson ynglŷn â'r Cymry, eu cyflwr cymdeithasol a'u gwleidyddiaeth, gan eu haddysgu am y math arbennig o genedlaetholdeb a fodolai mor agos atynt.

### Aelod Seneddol

Etholwyd ef yn aelod seneddol Rhyddfrydol dros Ferthyr Tudful ym 1868. Safodd yn gadarn dros fuddiannau Cymreig ac Anghydfurfiol yn ystod ei dymor yn y Senedd ac yno hefyd, yng Ngorffennaf 1873, llwyddodd i gario mesur o blaid cyflafareddiad rhwng y gwledydd. Bu farw yn Nhreborth,



Bangor, ar 20 Awst, 1888, ac fe'i claddwyd ym mynwent Abney Park,

O wybod yr hanes, dim rhyfedd fod ei gyfeillion wedi mynd ati i godi cofeb urddasol iddo yn y fynwent. Wedi i mi dalu gwrogaeth iddo, ar y ffordd allan treuais heibio i swyddfa ceidwad y fynwent, sef Jake. Gofynnais iddo a wyddai am unrhyw Gymry eraill oedd wedi eu claddu yno? Atebodd, 'Ydw, mae Betsi Cadwaladr wedi ei chladdu yma.' Wel, os y dywedodd o. Ni allwn adael heb dwtsho 'nghap i Betsi, felly yn ôl â fi i chwilio am ei charreg fedd. Fe gewch yr hanes hwnnw y tro nesaf.

